OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 2737

# Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2009

## RHAN 12

CYMORTH AT GYRSIAU RHAN-AMSER

**Cymorth at ffioedd o ran presenoldeb ar gwrs yn Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban**

**101.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru dalu cymorth i gynorthwyo at ffioedd i fyfyriwr rhan-amser cymwys mewn cysylltiad â'i bresenoldeb ar gwrs rhan-amser dynodedig yn Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban.

(2) Rhaid i'r cymorth a delir o dan baragraff (1) beidio â bod yn fwy na'r lleiaf o—

(a) mwyafswm y cymorth a fyddai wedi bod yn daladwy i fyfyriwr rhan-amser cymwys o dan reoliad 88(1)(a) pe bai wedi bod yn ymgymryd â'r cwrs yng Nghymru; a

(b) mwyafswm y cymorth i gynorthwyo at ffioedd a fyddai wedi bod yn daladwy iddo ym marn Gweinidogion Cymru gan ddibynnu os yw'n bresennol ar gwrs rhan-amser dynodedig yn Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban–

(i) yn unol â rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o'r Ddeddf yr oedd fel arfer yn preswylio yn Lloegr ac yn ymgymryd â'r cwrs rhan-amser yn Lloegr;

(ii) yn unol â rheoliadau a wnaed o dan Erthyglau 3 a 8(4) o Orchymyn Addysg (Cymorth Myfyrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1998 pe bai fel arfer yn preswylio yng Ngogledd Iwerddon ac yn ymgymryd â'r cwrs rhan-amser yng Ngogledd Iwerddon; neu

(iii) o gyllid gan Gyngor Cyllido Addysg Bellach ac Addysg Uwch yr Alban([1]) pe bai fel arfer yn preswylio yn yr Alban ac yn ymgymryd â'r cwrs rhan-amser yn yr Alban.

(**1**) Sefydlwyd y corff hwn o dan adran 1 o Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch (yr Alban) 2005 (dsa 6).